



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

BWRDD CYD LYWODRAETHU

**9 TACHWEDD 2022 AM 10YB
AR-LEIN**

PRESENNOL:

Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio [RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Corcoran, Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol [HC]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Sian Jones, Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol [PK]
Stephanie Maddix, CP CCPSH [SM] (cofnodion)
Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllid [AM]
Elan Parry, TIAA [EP]
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [SP] (**Cadeirydd**)
James Sutton, Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Ariannol [HW]

YMDDIHEURIADAU:

Sarah Davies, Arweinydd Llywodraethu a Moeseg y CA
Stephen Hughes, Prif Weithredwr SCHTh
Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid SCHTh

322. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 7 MEDI 2022

Gwahoddwyd y bwrdd i adolygu a rhoi sylwadau ar y cofnodion drafft o'r cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 7th Medi 2022.

Er mwyn rhoi eglurder ynghylch y diweddariad i'r datganiad cyfrifon, dywedodd RB y dylid ehangu'r cofnodion er mwyn adlewyrchu mai Archwilio Cymru oedd yn dioddef problemau cyrchu.

Cymeradwywyd y cofnodion wedyn yn amodol ar ymgorffori'r sylw uchod.

323. COFNOD GWEITHREDIADAU

Gweler y cofnod gweithrediadau ar wahân am ddiweddariadau.

324. CYLCH GORCHWYL NEWYDD AR GYFER Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Eglurodd y Cadeirydd y cefndir o ran y dull ynghylch sut y datblygwyd y cylch gorchwyl newydd:

- Mae CIPFA wedi cyhoeddi model newydd ynghylch pwyllgorau archwilio, gan gynnwys enghraifft o ddogfen cylch gorchwyl. Mae'r drafft hwn yn cyd-fynd yn agos gyda'r canllawiau ond gwnaed diwygiadau er mwyn adlewyrchu awgrymiadau Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae'r ddogfen cylch gorchwyl drafft wedi'i hadolygu drwy strwythur llywodraethu HGC drwy gyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a gadeirir gan y Prif Gwnstabl.
- Mae'r ddogfen hefyd wedi'i hadolygu drwy lywodraethu bwrdd rheoli SCHTh, a gadeirir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Cymeradwyodd y ddau gyfarfod y cylch gorchwyl er mwyn ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Rhoddodd JS yr adborth canlynol:

- Camgymeriad sillafu a brawddeg anghyflawn yn adran 1.1.
- Defnyddio iaith amwys. Gellid cryfhau "...cynorthwyo sicrhau...".
- Os oedd fforwm priodol mewn lle er mwyn cyflawni'r agweddau a geir yn adran 6 - trefniadau Atebolwydd.

Dywedodd RB ei bod wedi rhoi adborth i'r cylch gorchwyl drafft dros e-bost nad ymddengys ei fod wedi'i ymgorffori yn y fersiwn hon. O fewn ei hadborth, roedd hefyd wedi cyfeirio at ddylid cyfeirio at y gwerthusiad o'r CA, gan gynnwys y cynllun gweithredu a grëir o'r gwerthusiad, yn y cylch gorchwyl.

Byddai hefyd yn fuddiol cyfeirio yn y cylch gorchwyl newydd at fformat cyfarfod sesiynau agored a chaeedig a'r bwriad i gwmpasu popeth o fewn y sesiwn agored cymaint â phosibl, oni bai ei bod yn wybodaeth sensitif. Byddai hyn angen ei atgyfnerthu drwy fecanwaith diffiniedig tu allan i'r cylch gorchwyl lle cytunir ar y meini prawf a'r rhesymeg ar gyfer yr hyn sydd angen ei godi yn y sesiynau agored a chaeedig.

Gweithrediad: Y Cadeirydd i roi adborth i'r PSC Kate Jackson:

- 1. Ystyried ac ymgorffori adborth gan Rachel Barber cyn cwblhau'r Cylch Gorchwyl.**
- 2. Ystyried ac ymgorffori adborth gan James Sutton cyn cwblhau'r Cylch Gorchwyl.**
- 3. Sicrhau bod y fforymau a chyfrifoldebau llywodraethu priodol yn cael eu sefydlu er mwyn cyflawni'r Cylch Gorchwyl.**
- 4. Ailgyrchredeg y fersiwn drafft terfynol o'r cylch gorchwyl i'r aelodau.**

Cadarnhawyd fod y fersiwn bresennol o gylich gorchwyl y CA yn parhau hyd nes y bydd y fersiwn newydd yn dod i rym.

Holodd RB am y fforwm lle byddai cynllun gweithredu'r CA yn cael ei fonitro gan y byddai angen ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol neu newidiol ar gyfer y CA.

Gweithrediad: Seb Phillips i sefydlu llywodraethu cynllun gweithredu'r CA er mwyn sicrhau y monitirir cynnydd gyda rhanddeiliaid perthnasol.

325. NEWIDIADAU I'R STRWYTHUR LLYWODRAETHU – COMISIYNU/DATGOMISIYNU CYFARFODYDD

Fel y manylwyd o fewn yr adroddiad a gylchredwyd gyda'r pecyn agenda, amlygodd SWJ y newidiadau canlynol i'r strwythur llywodraethu a oedd wedi'i gytuno yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 2 Tachwedd 2022:

- Datgomisiynu'r Grŵp Gwella Dadlennu.
- Cyfuno'r Bwrdd EDI Strategol a Bwrdd y Gymraeg er mwyn ffurfio un Bwrdd y Gymraeg ac EDI Strategol i'w gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl bob chwarter.
- Dod â'r Gymraeg i'r Bwrdd EDI Tactegol ac i'r Bwrdd hwnnw gael yr enw Bwrdd y Gymraeg ac EDI Tactegol i'w gadeirio bob 6 wythnos gan Arweinydd Gwasanaeth y Gwasanaethau Corfforaethol.
- Datgomisiynu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen BAME a chynnwys gwaith parhaus o fewn Bwrdd Tactegol EDI a'r Gymraeg.

Byddai uno'r Bwrdd Strategol EDI a Bwrdd y Gymraeg yn cael ei adolygu mewn 6 mis er mwyn sicrhau nad ydym yn colli canolbwynt ar flaenoriaethau allweddol y Gymraeg.

Dywedodd GE unwaith eto ei fod yn cefnogi'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori i'r Bwrdd EDI Strategol gan fod y Gymraeg yn fater cydraddoldeb a diwylliannol. Dylid ei thrafod ymysg materion cydraddoldeb ac anghydraddoldeb eraill. Byddai'r bwrdd tactegol yn ymdrin yn fwy gyda'r materion sgiliau Cymraeg, a sut allwn ni ddatblygu a gwella'r lefel sgil o fewn yr heddlu ond hefyd y ddarpariaeth iaith i'r cymunedau.

326. MATERION LLYWODRAETHU HMICFRS

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem drwy egluro i'r bwrdd fod HMICFRS wedi cyhoeddi adroddiad drafft yn dilyn yr arolygon PEEL a oedd yn cynnwys graddau drafft cychwynnol. Rydym yn y broses o roi adborth ar y cywirdeb ffeithiol. Felly, mae'r canfyddiadau'n parhau o dan embargo, ond fe'i codir yma er mwyn amlygu'r safbwynt drafft cychwynnol sydd gan HMICFRS ynghylch ein strwythur llywodraethu.

Rhoddodd HC drosolwg o'r gwaith a oedd wedi digwydd ers derbyn yr adroddiad drafft. Hepgorwyd manylion o'r cofnodion oherwydd yr adroddiad o dan embargo.

Bydd rôl ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn adolygu'r canfyddiadau ynghylch trefniadau llywodraethu yn disgwyl derbyn yr adroddiad mwy manwl faes o law.

Pan mae HMICFRS wedi dangos y byddant yn newid y trefniadau ar gyfer cymeradwyo "Meysydd i'w Gwella" a fydd o bosib yn caniatáu'r heddlu i gymeradwyo rhai argymhellion.

Mae adolygiad arfaethedig o'n sefyllfa o ran y Cynllun Gweithredu Dalfeydd HMICFRS ym mis Rhagfyr, yn dilyn yr arolwg dalfeydd dirybudd ym mis Tachwedd 2021, er mwyn gweld pa argymhellion a ellir eu cymeradwyo. Mae'r Cynllun Gweithredu Arolygu Dalfeydd yn mynd drwy gyfarfod archwilio a chraffu o dan arweiniad Prif Arolygydd y Dalfeydd. Mae hwn wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol sydd wedyn yn bwydo i'r Bwrdd Gweithredu Strategol. Mae HMICFS yn fodlon gyda'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i gyflawni hyd yma.

327. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Diweddarodd AM y Bwrdd drwy eithriad ar faterion yn digwydd ers cylchredeg yr adroddiad.

Derbyniwyd Adroddiadau Archwiliadau Drafft

- Archwiliad cydweithredol 2022/23 – Treuliau a thaliadau ychwanegol: Mae'r adroddiad eto i'w gwblhau gan fod TIAA yn disgwyl am sylwadau gan heddluoedd eraill, ond rydym wedi derbyn gradd sylweddol.
- Pensiynau 2022/23: Mae'r adroddiad wedi cael ei ddychwelyd er mwyn ei gwblhau ac mae wedi derbyn gradd sylweddol.
- Uned Reoli 2022/23 – Ardal Ganolog: Mae'r archwiliad hwn wedi derbyn gradd sicrwydd rhesymol.
- Eiddo y Codir Tâl Amdano: Mae'r archwiliad hwn gyda gradd sicrwydd cyfyngedig ar hyn o bryd. Anfonir ymateb rheolwyr at TIAA a all neu ddim newid y radd. Roedd hwn yn archwiliad dilynol o 12 mis yn ôl, a raddiwyd hefyd fel sicrwydd cyfyngedig ar y pwynt hwnnw. Cydnabyddir fod cynnydd yn cael ei wneud ond mae pryderon o hyd yn dilyn yr adolygiad diweddar.

Bydd yr archwiliad sicrwydd cyfyngedig hwn yn y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr gyda Colin Parry a Rebecca Bywaters (Rheolwr Eiddo wedi'i Atafaelu) i fod i ddod. Byddai hyn angen ei godi yn sesiwn gaeedig y cyfarfod hwn oherwydd sensitifrwydd penodol er mwyn caniatáu rhoi cyd-destun ychwanegol na fyddai'n briodol i'r cyhoedd.

Trafodwyd archwiliadau cydweithredol yn ystod Cydbwyllgor Archwilio Cymru Gyfan a oedd yn anffurfiol yn gynharach y mis hwn. Eglurodd RB bod teimladau cymysg wedi bod ynghylch mantais yr archwiliadau cydweithredol, er bod CA Gogledd Cymru o'u plaid. Cytunwyd y byddai Grŵp Cyllid Heddlu Cymru yn edrych ar y cylch gorchwyl ynghylch archwiliadau cydweithredol er mwyn sicrhau bod mantais a chanlyniadau da o'r archwiliadau hynny. Awgrymwyd y byddai arbrawf o archwiliadau cydweithredol newydd yn dechrau yn 2023 tra mae TIAA yn ymgymryd â'u harchwiliadau mewnol cyn y gwneir penderfyniad ynghylch sut i gyflawni'r rhwymedigaeth honno yn 2024.

Rhybuddion Twyll

Siaradodd AM drwy liniaru mewn lle o ran yr un rhybudd twyll agored – FA033 Twyll Caffael; Twyll Dynwared.

Argymhellion archwiliad

007 - Dyledwyr: Mae'r argymhelliad hwn bellach wedi'i weithredu gan fod y Pennaeth Cyllid a'r CCA wedi awdurdodi i'r rhain gael eu cymeradwyo.

008 Diogelwch y Rhwydwaith: Mae hyn yn berthnasol i fudo Windows 7 a dywedodd y Cadeirydd fod y diweddariad a'r gweithrediadau a grëwyd yma yn ddefnyddiol iawn. Bydd hyn yn cynnwys fel Adroddiad at Wraidd y Mater Risg yng Nghydbwyllgor Archwilio mis Rhagfyr o dan arweiniad y Pennaeth Technoleg. Ychwanegodd AM fod y dyddiad gweithredu ar gyfer yr argymhelliad hwn wedi'i ymestyn i 31/01/23.

328. ADOLYGIAD O GYHOEDDIADAU A GYHOEDDWDYD GAN ARCHWILIAD MEWNOL

Wedi'i gwmpasu yn yr adran flaenorol.

329. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Trafododd y Bwrdd argymhellion y Cydbwyllgor Archwilio a oedd yn berthnasol i lywodraethu.

- Roedd y 2 argymhelliad cyntaf ynghylch trafodaeth ar y cyllid grant Strydoedd Diogelach. Mae HC, SP a GE wedi cyfarfod ar gyfer trafodaethau cychwynnol er mwyn symud ymlaen a byddai diweddariad llawn yn cael ei roi i'r CA faes o law.
- Wedi cymeradwyo'r adolygu - eglurodd GE nad oedd y cyfarfod Cymru Gyfan wedi digwydd eto, ond byddai'n rhoi adborth unwaith y bydd.
- Rhyngwyneb rhwng y Pennaeth Technoleg a'r Prif Swyddog Gwybodaeth – Roedd y Cydbwyllgor Archwilio wedi gofyn am fwy o sicrwydd a dealltwriaeth na fyddai pethau'n syrthio i'r bylchau heb Brif Swyddog Technoleg cyffredinol. Roedd y rôl hon wedi'i hystyried yn ofalus fel rhan o'r trafodaethau ynghylch y model gweithredu targed TGCh ond gwelwyd fel diangen. Mae'r PSG a'r Pennaeth Technoleg yn adrodd i'r CCA fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Rhoddir diweddariad llawn i'r CA fis Rhagfyr.

Bydd gweithrediadau ac argymhellion y Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd wrth osod yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rhai hynny sy'n berthnasol i lywodraethu yn cael eu codi a'u trafod gan y Bwrdd.

330. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad a roddwyd gyda'r pecyn agenda.

Ychwanegodd SWJ fod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r broses mapio sicrwydd sef eu bod bellach ond yn adolygu risgiau sydd wedi'u nodi fel hanfodol a bob 18 mis yn hytrach na bob 12 mis. Delir hyn o fewn y fframwaith mapio risg a sicrwydd.

Cadarnhawyd fod yr Arweinydd Parhad Busnes yn derbyn y cymorth angenrheidiol o ran ymgysylltu gydag adrannau er mwyn trefnu profion craffu ar gynlluniau parhad busnes. Mae'r Bwrdd Sicrwydd wedi ymroi adolygu hyn ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn penderfynu ar y gwerth a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Mae'r bwrdd cadernid TGCh yn parhau i redeg yn y cefndir. Rhoddodd y Cadeirydd sylw ar y gwaith gwych a wnaed gan yr Arweinydd Parhad Busnes.

331. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN

Trafododd y Bwrdd pa elfennau fyddai angen eu dal wrth osod agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Gweithrediad: Stephanie Maddix i sicrhau fod y canlynol yn cael ei ddal gyda'r cynllun gwaith ymlaen wrth osod agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf:

- Ystyried a ddylid cynnwys cynllun gweithredu'r CA yn rhaglen waith y Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn hysbysu yma.
- Monitro Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Hunanasesiad ar gyfer codau Rheoli Ariannol
- Diweddariad HMICFRS – yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad PEEL

332. UNRHYW FATER ARALL

Nid chodwyd mater arall.

DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF:

Dydd Mercher 1 Mawrth 2023

Dydd Mercher 28 Mehefin 2023

Dydd Mercher 6 Medi 2023

Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023